# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 9 Mawrth 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

## *Gofyn i'r Trefnydd*

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Faint o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u derbyn gan y BBC ers i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ddod i rym. (WAQ49727)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Janice Gregory (Ogwr):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar brif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes y portffolio Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, yn etholaeth Ogwr er 2003. (WAQ49732)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** O ran y gyllideb ar gyfer Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, a all y Gweinidog esbonio cyfanswm y llinell wariant, sef £137.614 gan nad oedd hynny'n cyfateb i'r £143.716 miliwn ar gyfer 2006-07, sef yr hyn a nodwyd yn ffigurau terfynol y gyllideb a gyflwynwyd i'r pwyllgor ym mis Mehefin 2006.(WAQ49739)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A all y Gweinidog esbonio ymhle mae'r £29.417 miliwn ar gyfer y Gronfa Diwylliant, a gynhwyswyd yn ffigurau cyllideb Mehefin 2006, ond sydd heb eu dangos yn nhabl y Gwariant o fewn y Flwyddyn' gyfredol. (WAQ49740)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa ystyriaeth mae'r gweinidog wedi'i rhoi i geisio'r pwerau i lywodraethu hyfforddwyr gyrru yng nghyswllt rheoleiddio prisiau a sicrhau eu bod wedi cael eu harchwilio gan y SCT. (WAQ49725)

**Janice Gregory (Ogwr):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth y Cynulliad yn y portffolio Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn etholaeth Ogwr er 2003 (WAQ49731).

**Janice Gregory (Ogwr):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn etholaeth Ogwr. (WAQ49733)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Janice Gregory (Ogwr):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion ledled Cymru. (WAQ49737)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau podiatreg sydd ar gael ar gyfer cleifion â diabetes. (WAQ49726)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amseroedd aros a bennwyd ar gyfer pobl sy'n dioddef o ganser yng Nghymru ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ49728)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pa hyfforddiant sy'n cael ei roi i Feddygon Teulu ym maes triniaeth gofal canser, a faint o bwys a roddir i hyn yn y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. (WAQ49729)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Janice Gregory (Ogwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiannau yn y maes cyfiawnder cymdeithasol yn etholaeth Ogwr. (WAQ49734)

**Janice Gregory (Ogwr):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu unigolion ar incwm isel i fynd i'r afael â phroblem dyled bersonol. (WAQ49735)

**Janice Gregory (Ogwr):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu: a) faint o arian sydd wedi'i fuddsoddi yn etholaeth Ogwr drwy gyfrwng rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a b) darparu rhestr o brosiectau penodol a noddir drwy gyfrwng rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn etholaeth Ogwr. (WAQ49736)

**Janice Gregory (Ogwr):** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl grantiau ar gyfer cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol a ddarparwyd yn etholaeth Ogwr er 2003 (WAQ49738)

## *Gofyn i un o gynrychiolwyr Pwyllgor y Ty*

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Faint o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y mae Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad wedi'u derbyn gan y BBC ers i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ddod i rym. (WAQ49730)